**Eitem ar yr agenda: 8**

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 20 MEHEFIN 2005 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | DEFNYDDIO'R TANWARIANT O GYLLIDEB 2004-2005 |

1. Ym Mawrth 2005, cyflwynwyd adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub yn rhoi'r Alldro Amcanol am y flwyddyn 2004-2005. Roedd yr adroddiad yn dangos y byddai tanwariant o £839,364, ac roedd yn cynnwys rhai opsiynau ar sut i ddyrannu'r tanwariant. Cytunwyd eisoes i ddefnyddio rhan o'r tanwariant i ariannu cyllideb 2005-2006, ond ar adeg y cyfarfod, gofynnwyd i'r Aelodau i ohirio'r penderfyniad ar ddyrannu'r balans gan fod yna fater a allai gael effaith ar y Rhaglen Gyfalaf a allai yn ei dro effeithio ar gyllideb 2005-2006. Dan yr amgylchiadau hyn, ystyriwyd mai doeth fyddai gohirio'r penderfyniad ar y tanwariant hyd oni fyddai'r mater wedi ei ddatrys. Mae ymchwiliadau wedi hynny wedi dod i'r casgliad nad oedd gan y mater unrhyw effaith ar gyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub.

2. Y gwir danwariant ar gyfer 2004-2005 yw £1,163,186, sydd £323,822 yn uwch na'r tanwariant a adroddwyd i'r cyfarfod ym mis Mawrth. Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi'r tanwariant ychwanegol gan dynnu sylw at y meysydd lle mae gwahaniaeth perthnasol i'r ffigurau a adroddwyd ym mis Mawrth.

| **Tanwariant Ychwanegol** | **£ '000** | **Gwariant Ychwanegol** | **£ '000** |
|---|---|---|---|
| Staff Lifrai Llawn Amser (3) | -106 | Ariannu Cyfalaf (12a) | 145 |
| Diffoddwyr Tân Rhan Amser (4) | -88 | Diogelwch Tân (9) | 40 |
| Newid Stoc Gwisgoedd (5) | -82 | Adeiladau | 33 |
| Costau Cyfrifiadurol (6) | -72 | Incwm | 6 |
| Costau Cludiant (7) | -43 | | |
| Taliadau Pensiwn (8) | -36 | | |
| Gwisgoedd (5) | -32 | | |
| Yswiriant | -15 | | |
| Costau Adleoli | -12 | | |
| Offer Hyfforddi | -11 | | |
| Arall | -15 | | |
| Diogelwch Tân | -10 | | |
| System Gwybodaeth Ddaearyddol | -10 | | |
| Offer Swyddfa | -6 | | |
| Darpariaeth Dyled Ddrwg | -5 | | |
| Cysylltiadau | -5 | | |
| **CYFANSWM** | **-548** | **CYFANSWM** | **224** |
| **TANWARIANT NET** | | **YCHWANEGOL** | **-324** |

3. Cyfrifwyd y ffigwr alldro ar gyfer Staff Lifrai Llawn Amser gyda golwg ar ffigurau mis 12 y blynyddoedd blaenorol. Yn y blynyddoedd a fu, roedd yna wastad swm wedi cronni i ymorol am y cynnydd mewn cyflogau, ond gyda'r newid yn y fformiwla gyflogau, nid oes angen y croniad yma. Roedd y ffigurau alldro yn cynnwys y croniad cyflog amcangyfrifedig, ac arweiniodd hyn at £106,000 yn ormod yn yr alldro.

4. Roedd nifer y digwyddiadau ym mis Chwefror a Mawrth lawer yn is na'r cyfartaledd ar gyfer yr adeg honno o'r flwyddyn, ac arweiniodd hynny at ragor o danwariant nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol yng nghyllideb y Diffoddwyr Tân Rhan Amser.

5. Fel yr adroddwyd eisoes, roedd oedi yn nosbarthu'r gwisgoedd newydd oherwydd problemau cynhyrchu, ac mae'r oedi pellach wedi golygu bod y tanwariant ar wisgoedd wedi cynnyddu gan mai yn y flwyddyn newydd y dosbarthir y gwisgoedd. Oherwydd yr oedi, nid oes dim o'r gwisgoedd newydd sydd wedi cyrraedd wedi cael eu dosbarthu o'r storfa ac mae hyn wedi arwain at lefelau stoc annaturiol o uchel. Er mwyn rheoli'r gwisgoedd newydd, a'u rhoi i mewn i'r cyfrifon heb i hynny gael effaith ar y gyllideb ar gyfer 2005-2006, bydd raid creu Darpariaeth ar gyfer Gwisgoedd o £190,000 o danwariant 2004-2005.

6. Roedd y gwir wariant ar gostau Cyfrifiadurol £72,000 yn llai na'r amcangyfrif yn yr alldro, yn bennaf oherwydd prynu llai o feddalwedd na'r disgwyl.

7. Mae'r tanwariant ar gostau Cludiant wedi cynnyddu £43,000, yn bennaf oherwydd oedi wrth gwblhau rhai trefniadau prydlesu ceir a gyfrifwyd yn y ffigurau alldro.

8. Roedd y gwariant ar Daliadau Pensiwn £36,000 yn llai nag a adroddwyd yn flaenorol, yn bennaf oherwydd i daliadau trosglwyddo gwerthoedd allan fod yn llai na'r disgwyl.

9. Yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Rhagfyr 1999 (cofnod 5), cymeradwywyd sefydlu Uned Hyfforddi Diogelwch Tân Masnachol. Sefydlwyd yr Uned fel Uned Fusnes, sef byddai'r incwm yn ymorol am yr holl wariant ac y byddai unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgarwch Diogelwch Tân Cymunedol. Fodd bynnag, mae'r uned wedi gwneud colled – hyd yn oed wedi i ymgynghorydd gael ei gyflogi i roi cyngor ar farchnata ac ati – ac mae hyn wedi cael ei dreiglo ymlaen. Ar ddiwedd Mawrth 2005, y balans oedd £39,986. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal yn 2005-2006 ar sut y dylai'r Uned weithredu yn y dyfodol, ond yn y cyfamser ystyrir mai doeth fyddai dileu'r golled sydd wedi cronni.

10. Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 31 Ionawr 2005, penderfynwyd bod y Prif Swyddog Tân yn cymryd rhan mewn prosiect wedi ei reoli'n llawn gyda'r heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans, i ddatblygu cynigion cadarn ar gyfer lleoli'r tair ystafell reoli'r tri gwasanaeth brys ar yr un safle. I ymorol am gostau'r prosiect ac i gynorthwyo â'r costau adleoli, argymhellir neilltuo £100,000 o'r tanwariant i Ddarpariaeth ar gyfer Ystafell Reoli.

11. Mae'r tabl isod yn gosod y sefyllfa hyd yn hyn o safbwynt y tanwariant, a'r argymhellion sydd yn yr adroddiad. Mae rhan nesaf yr adroddiad yn trafod yr opsiynau sydd ar gael i'r Aelodau ynghylch sut i ymdrin â balans y tanwariant.

| | **£** | **£** |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Tanwariant | | 1,163,186 |
| Cyllideb 2005-2006 | 500,000 | |
| Darpariaeth ar gyfer Gwisgoedd | 190,000 | |
| Darpariaeth ar gyfer Ystafell Reoli | 100,000 | |
| Balans y Tanwariant | | **373,186** |

12a Mae costau Ariannu Cyfalaf wedi cynyddu £145,000 oherwydd y Côd Darbodus, a'r newidadau i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf o'i herwydd, sef yn yr achos hwn – y newid o brydlesu i fenthyca. Yn 2004-2005, daeth nifer o drefniadau prydlesu i ddiwedd eu cyfnod prydlesu cyntaf a'r opsiynau oedd ar gael oedd dechrau ar ail gyfnod prydlesu, dychwelyd y nwyddau neu brynu'r nwyddau trwy drydydd parti. Gan fod yr asedau'n dal i gael eu defnyddio gan y gwasanaeth, penderfynwyd prynu rhai o'r nwyddau a dechrau ar ail gyfnod prydlesu gyda'r lleill. Fodd bynnag, nid yw'r costau prynu allan o brydles a'r trefniadau ail-brydlesu yn hysbys tan ddiwedd y cyfnod prydlesu ac roeddent yn uwch na'r disgwyl.

12b Fel rhan o broses gosod y gyllideb ar gyfer 2005-2006, cymeradwyodd yr aelodau yr opsiwn fod y Derbyniadau Cyfalaf o werthu asedau'r Awdurdod Tân ac Achub yn cael eu defnyddio i ariannu'r gwariant cyfalaf yn 2004-2005. Roedd effaith refiniw cyffredinol yr opsiwn yn rhagdybio y byddai derbyniad cyfalaf yn dod o werthu adeilad York Road; yn anffodus ni chwblhawyd gwerthu York Road yn 2004-2005. Y derbyniadau cyfalaf ar ddiwedd Mawrth oedd £303,762, yn erbyn y derbyniadau o £420,000 yn y gyllideb. I gynorthwyo i liniaru effaith y gorwariant amlinellwyd ym mharagraff 12a. ac i gadw swmp y derbyniadau cyfalaf ar gyfer ariannu Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod yn y dyfodol, argymhellir yn gryf, felly, ddefnyddio balans y tanwariant o £373,186 i ariannu'r gwariant cyfalaf yn 2004-2005.

13. Yr opsiwn arall i'r Aelodau yw dychwelyd balans y tanwariant i'r Awdurdodau Cyfansoddol.

## 14. ARGYMHELLION

**(i)** **Bod y golled sydd wedi cronni o £39,986 erbyn 31 Mawrth 2005 ar gyfer yr Uned Diogelwch Tân Masnachol yn cael ei dileu o fewn cyfrifon 2004/05.**

**(ii)** **Bod £190,000 o Ddarpariaeth ar gyfer Gwisgoedd yn cael ei chreu o danwariant 2004-2005.**

**(iii)** **Bod £100,000 o'r tanwariant yn cael ei ddefnyddio i greu Darpariaeth ar gyfer Prosiect yr Ystafell Reoli.**

**(iv)** **Defnyddio'r tanwariant sydd yn weddill, sef £373,186 i ariannu gwariant cyfalaf ar gyfer 2004-2005.**

*K W Finch*

**Trysorydd**

***26 Mai 2005***